**LC239**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion a Ragnodwyd) (Diwygio) (Cymru) 2001**

**Y cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r ffurflenni dwyieithog sydd i gael eu defnyddio gan berchen-feddianwyr a thenantiaid wrth wneud cais am grantiau adnewyddu tai o dan Bennod I o Ran I o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 yng Nghymru.

Mae'r diwygiadau yn dilyn yn sgil y diwygiadau sy'n cael eu gwneud i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2001.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Fformat Dwyieithog**

Mae Rheoliad 2 yn darparu ar gyfer diwygio'r Rheoliadau ffurflenni Cymraeg fel yn y testun Cymraeg ac ar gyfer diwygio'r Rheoliadau ffurflenni Saesneg fel yn y testun Saesneg. Mae hyn yn dilyn fformat Rheoliadau diwygio eraill ee. (OS 2000/1710 (Cy.116)), ac yn cyd-fynd â sylwadau a gyflwynwyd gan y pwyllgor Deddfau mewn perthynas â Rheoliadau diwygio cynharach (OS 1999/3469 (Cy.55)).

Wrth gyflwyno sylwadau ar Reoliadau 1999, teimlai'r Pwyllgor fod fformat dwyieithog cynhwysfawr y rheoliadau hynny yn cynnwys dyblygu diangen a'r posibilrwydd o greu dryswch.

Er hynny, nodir bod cronfa ddata Butterworths yn dweud bod y diwygiadau a wnaed gan OS 2000/1710 heb eu hymgorffori, er bod y diwygiadau cynharach a wnaed gan Reoliadau 1999 wedi'u hymgorffori.

Rhaid felly i'r Pwyllgor gasglu y gall fod yn fuddiol troi yn ôl i fformat Rheoliadau 1999. Y pwynt yw mai uniaith Gymraeg yw'r cyfarwyddiadau ar gyfer creu'r newidiadau i'r ffurflenni Cymraeg yn y Rheoliadau presennol. Gall hyn olygu bod y rhai sy'n gyfrifol am gynhyrchu cronfeydd data masnachol a thestunau cyfun yn gweld nad oes ganddynt adnoddau ar gyfer cynhyrchu testun Cymraeg cyfun.

Er gwaethaf sylwadau'r Pwyllgor yn ei adroddiad ym mis Tachwedd 1999 (LC22), awgrymir felly ei bod yn ddigon posibl bod y fformat a ddefnyddiwyd yn Rheoliadau 1999 yn briodol pan fydd ffurflenni rhagnodedig Cymraeg a Saesneg ar wahân yn cael eu diwygio. Fel yn Rheoliadau 1999, mae modd osgoi dyblygu drwy ddefnyddio fformat tudalen llawn ar gyfer mewnosod blociau o destun.

**Y Nodyn Esboniadol – y pennawd**

Ceir dau atalnod llawn yn y testun Cymraeg, ond nid oes atalnod wedi'i ddefnyddio yn y Saesneg o gwbl.

**Y Nodyn Esboniadol – yr ail baragraff a'r trydydd**

Credir y dylai "form amended" fod yn "form to be amended". Fel arall, fe ellid cael yr argraff mai at y ffurflen ddiwygiedig derfynol y cyfeirir.

**Y Nodyn Esboniadol – y pedwerydd paragraff**

Mae angen cynnwys cyfeiriad yn y testun Cymraeg a'r Saesneg.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

8 Mai 2001